


Mae'r un sy'n gwrthod gwrando ar gyngor pobl ddrwg wedi ei fendithio'n fawr; yr un sydd ddim yn cadw cwmni pechaduriaid, nac yn eistedd gyda'r rhaisy'n gwneud dim byd ond dilorni pobl eraill;




yr un sydd wrth ei fodd yn gwneud beth mae'r ARGLWYDD eisiau, ac yn myfyrio ar y pethau mae'n eu dysgu Ref ddydd a nos.





Bydd fel coeden wedi ei phlannu wrth ffrydiau o ddŵr,
yn dwyn ffrwyth yn ei thymor,
a'i dail byth yn gwywo.Croes
Beth bynnag mae'n ei wneud,
bydd yn llwyddo.



Ond fydd hi ddim felly ar y rhai drwg!
Byddan nhw fel us
yn cael eu chwythu i ffwrdd gan y gwynt.





Fydd y rhai drwg ddim yn gallu gwrthsefyll y farn.
Fydd pechaduriaid ddim yn cael sefyll gyda'r dyrfa o rai cyfiawn.

Mae'r ARGLWYDD yn gofalu am y rhai sy'n ei ddilyn,
ond bydd y rhai drwg yn cael eu difa.